

Hyfforddiant Trysoryddion

Y MAN CYCHWYN

1 Sicrhewch gopiau o'r holl lyfrau a dogfennau ariannol:

Datganiadau Banc (statements)

Llyfr siec

Llyfr talu mewn

Ledger neu spread-sheet ar y cyfrifiadur

Gwybodaeth am unrhyw gyfrifon banc eraill (ee yr Ysgol Sul)

Rhestr yr aelodau a'u cyfraniadau

Adroddiadau blynyddol diweddaraf y capel

2 Oes yna rhywun arall yn gwneud rhai o gyfrifoldebau'r trysorydd (ee ysgrifenydd ariannol) ? Ydych chi'n glir be mae nhw'n wneud, a be sy angen I chi wneud?

3 Penderfynwch sut rydych am gadw 'r cyfrifon, mewn llyfr clawr caled (ledger), neu ar y cyfrifiadur ar *spread-sheet*. Mae proforma newydd ar gael gan Andy Britten y Swyddog Ariannol yng Nghaerdydd.

TASGAU TRYSORYDD Y CAPEL

1 Cadw cyfrifon banc y capel. Fel arfer bydd cyfrif cyfredol a chyfrif wrth gefn. Mae'n bosibl y bydd cyfrifon penodol eraill. Gall trysoryddion grwpiau o fewn yr eglwys (ysgol Sul; Cymdeithas Lenyddol ac ati) fod â chyfrifon eraill y mae nhw'n eu gweinyddu. Byddwch angen casglu'r wybodaeth am y cyfrifon hyn, a mantolen y grwp ar ddiwedd y flwyddyn.

2 Derbynn casgliadau. Nodi be sy wedi ei dderbyn yn y cyfrifon. Balansio'r llyfrau.

3 Cofnodi pob derbyniad ar nos Sul, neu pryd bynnag y'l derbynnir, ar bapur. Ar y cyfle cyntaf, trosglwyddo'r wybodaeth yna I'r cyfrifon.

4 Bancio'r pres – yn wythnosol fel rheol.

5 Talu'r pregethwr, a phob bil. Dylid talu drwy siec, nid arian parod, er mwyn cael prawf o daliadau. Ymarfer da yw i 2 berson arwyddo pob siec.

6 Cadw copi o bob bil a thaliad am 7 mlynedd, at ddibenion HMRC.

7 Gwneud taliadau y 'Cyfraniad Cyfundebol' i Gaerydd bob chwarter. Gallai hyn fod drwy Orchymyn Banc, neu gyda siec.

8 Costau'r gweinidog. Fel arfer cytunir ar swm blynyddol , a'i rannu rhwng eglwysi yr ofalaeth. Bydd pob eglwys yn talu eu cyfraniad I mewn I 'Gronfa Ganolog yr Ofalaeth' yn fisol (drwy orchymyn banc neu siec). Bydd gorchymyn banc misol wedyn yn cael ei dalu I'r gweinidog allan o'r gronfa honno.

9 Bob 3-4 mis, dylid balansio'r llyfrau, a sicrhau bod yr arian yn gywir.

10Ar ol Diolchgarwch, yn yr hydref, gyrru llythyr I bob aelod I ddeud

- Faint mae nhw wedi ei gyfrannu I'r Capel eleni
- Beth ydi'r disgwyl gan bob aelod
- Dyddiad cau'r llyfrau

Ac annog a diolch I bob aelod am dalu eu tâl aelodaeth yn brydlon. Ond cofiwch nad eich rol chi yw hel cyfraniadau hwyr – mae'r cyfrifoldeb yma i'w rannu efo'r blaenoriaid.

11 Byddwch yn anelu at gau y llyfrau ddiwedd mis Rhagfyr.119 Cofnodi Ystadegau'r capel ar gyfer yr henaduriaeth ar y ffurflen berthnasol.

12 Aelodau newydd. Rhoi gwybodaeth (ffurflenni perthnasol) I aelodau newydd ar gyfer

- Gosod I fyny gorchymyn banc I'r Capel
- Ffurflen I'w arwyddo I wneud Rhodd Gymorth I'r capel, os yn gymwys

13 Rhodd Gymorth - Gall rhodd gymorth olygu 20% ychwanegol ar ben cyfraniad, a gall fod yn incwm sylweddol I'r eglwys. Ond wrth gwrs, nid pawb sy'n talu treth, ac felly'n gymwys I'r cynllun.

Yn syml, mae angen

- I'r aelod gwblhau y ffurflen perthnasol, a'l roi I'r trysorydd, sy'n cadw'r ffurflen.
- Y trysorydd I wneud cais unwaith y flwyddyn I HMRC am yr ad-daliad (ffurflen I'w gael ar y we).
- Gellir hefyd cael ad-daliad ar y casgliad rhydd a gofnodir yn y cyfrifon.(Ffurflen ar y we).

14 Rhoi adroddiad ariannol mewn cyfarfod blaenoriaid, a thynnu eu sylw at unrhyw ddiffyg neu broblem mewn da bryd.

BUDDSODDI A CHYFRIFON BANC

1 Fel arfer bydd gennych

- Gyfrif Cyfredol
- Cyfrif arian wrth gefn

O bosibl bydd cyfrifon eraill gan grwpiau penodol ee Ysgol Sul, Cymdeithas y Chwirydd; Y Gymdeithas Lenyddol; Y Fynwent. Gall y grwpiau hyn fod a'u trysoryddion eu hunain. Bydd angen I bob trysorydd gyflwyno ei gyfrifon ar gyfer yr 'Archwilio'.

2 Buddsoddiadau - Gall fod gan y capel fuddsoddiadau ee War Stock; Bonds ac ati, sy'n rhoi incwm I'r capel.

3 Os oes gennych arian sy angen ei fuddsoddi (ee. rhodd sylweddol I'r eglwys) gellir ei anfon I Gronfa Buddsoddi Caerdydd. Mae hwn yn cynnig llog ychydig gwell na'r arfer. Byddwch yn derbyn y llog yn flynyddol o Gaerdydd. Drwy ddefnyddio'r Gronfa yma rydych yn lleihau'r cyfrifoldeb ac risg personol o fuddsoddi ar ran y capel.

4 Ewyllys – Gallech dderbyn arian drwy ewyllys.Mae union eiriad yr ewyllys yn Bwysig. Gall fod yr arian

- ar gyfer 'Eglwys Bresbyteraidd Cymru' – felly aiff I Gaerdydd, a chael ei fuddsoddi er budd eich capel chi
- ar gyfer eich capel penodol chi, felly byddwch yn cadw'r pres yn lleol.

5 Rhaid I fuddsoddiadau fod yn 'Foesol' – ethical (dim buddsoddi mewn cwmnïau arfau, alcohol, tobacco, pornograffi; menthycwyr arian di-egwyddor/ *loan sharks* ac ati)

6 Rhaid hysbysu'r blaenoriaid a'r henaduriaeth os ydych yn derbyn arian drwy ewyllys.

CREU CYLLIDEB AM Y FLWYDDYN

1 Mae'n syniad da creu cyllideb am y flwyddyn, gan nodi pob cost sy debyg o godi. Hefyd nodi unrhyw 'gostau anarferol' hy costau sylweddol allai godi. ee. Gwaith ar yr adeilad; seti neu garped newydd; addurno; gwaith ar dŷ rydych yn berchen arno.

2 Mantais hyn yw rhoi gwybod I'r blaenoriaid a'r gweinidog be sy ar y gweill – dim 'syrpreisis' ariannol.

3 Cronfa Fenthyg

Mae modd menthyg hyd at 75%o gost sylweddol o'r gronfa yma drwy eich henaduriaeth. Rhaid ad-dalu'r menthyciad, ond mae'n ddi-log.

4 Caniatad – rhaid cael caniatad yr Henaduriaeth am wariant sy dros £5,000.

CYFRANIAD CYFUNDEBOL

1 Y Cyfraniad Cyfundebol (CC) , neu y 'dreth' yw y swm y pen mae angen I bob capel dalu I Gaerdydd. Ar hyn o bryd tua £150 yr aelod. Mae'r pres yma yn talu am

- Costau canolog (Pensiynau/ rhedeg y Cyfundeb/ gweinyddu)
- Cyfraniad lleol - cynhaliaeth y weinidogaeth

2 Arfer da yw datgan yn Adroddiad y Capel beth ydi'r cyfraniad disgwylidig gan bob aelod am y flwyddyn honno. Bydd y swm yn cynnwys y 'Cyfraniad Cyfundebol' + costau lleol.

3 Penodir y CC bob blwyddyn o Gaerdydd tua mis Gorffennaf, a cewch eich hysbysu o'r swm yn yr hydref. Nifer aelodaeth y capel ym mis Mehefin bob blwyddyn sy'n penodi taliad Caerdydd am y flwyddyn canlynol.

4 Bydd y CC yn amrywio o gapel l gapel, yn dibynnu

- Os oes gennych weinidog ai peidio
- Os ydych yn ran o ofalaeth bro

5 Rhaid talu y CC am bob aelod dros 25ain oed. Does dim tâl yn ofynnol am aelodau dan 25ain. OND gall fod aelodau bregus sy ddim mewn sefyllfa i dalu. Bydd angen cadw hyn mewn cof wrth bennu y cyfraniad disgwylidig. Egwyddor yr Eglwys yw bod y cryf yn cynnal y gwan.

6 Aelodau sy ddim yn cyfrannu. Arfer cyffredin yw tynnu enwau aelodau oddi ar y llyfrau, os nad ydynt wedi cyfrannu na chwarae rhan ym mywyd yr eglwys am 2-3 blynedd. Nodir hyn yn Adroddiad y Capel, a bydd llythyr yn cael ei anfon at yr aelod l roi gwybod iddynt o flaen llaw o'r bwriad o dynnu eu henw oddi ar y llyfrau, a rhoi cyfle iddynt gyfrannu. Ond penderfyniad y blaenoriaid fyddai gweithredu fel hyn, ddim y trysorydd.

7 Telir y CC i Gaerdydd bob chwarter, drwy Orchymyn Banc neu siec.

8 Costau Lleol - Bydd hyn yn cynnwys holl gostau rhedeg yr adeilad a'r eglwys yn lleol – y pres sy angen i dalu'r biliau. Gellir tynnu o 'r gost yma unrhyw incwm (ee tŷ ar osod; llogau)

9 Os ydych yn rhagweld bydd prinder arian, neu unrhyw broblem ariannol arall, dylech drafod hyn gyda'ch blaenoriaid cyn gynted â phosibl.

10 Gofalaeth – bydd costau cynhaliaeth lleol yn cael eu rhannu rhwng yr ofalaeth. Eto yr egwyddor yw lir cryf gefnogi'r gwan. Mewn egwyddor byddai diswyl i eglwys fawr ysgwyddo mwy o'r baich nag eglwys fach.

'CAU'R LLYFRAU'

1 Anelu at gau'r llyfrau ddiwedd Rhagfyr.

2 Cael datganiadau o'r banc am y flwyddyn, a sicrhau bod eich llyfrau chi yn cyfateb l ddatganiadau'r banc.

3 Casglu gwybodaeth a datganiadau o unrhyw gyfrifon banc eraill (ee cymdeithasau o fewn yr eglwys). Hefyd gall fod buddsoddiadau gan yr eglwys.

4 Creu mantolen erbyn diwedd Ionawr - Mae'n ddefnyddiol cael yr un penawdau ar y fantolen ag sydd ar y 'Ffurflen Ystadegau' o Gaerdydd.

5 Trefnu i 1 neu 2 berson annibynnol archwilio'r llyfrau. Bydd hyn yn berson sy â'r profiad a'r sgiliau addas (ee athro maths, banciwr). Gall fod yn aelod o'r capel, ond ni ddylai fod yn flaenor. Gweler y llyfr Trefn a Rheolau tudalen 45.

Gellir trefnu noson i ddod at eich gilydd, efo trysoryddion y grwpiau gwahanol, fel eich bod wrth law l egluro unrhyw beth sy ddim yn glir. Neu byddwch yn rhoi'r holl lyfrau a dogfennau i'r archwiliwr wneud y gwaith yn ei (h)amser ei hun.

Dylid newid archwiliwr yn gyson – bob 3 neu 4 blynedd.

Dylid cwblhau archwilio'r llyfrau erbyn diwedd Ionawr/ Chwefror.

6 Cwblhau Ffurflen Ystadegau Caerydd. Bydd ysgrifennydd y capel yn derbyn y ffurflen yn ystod yr hydref, a gofynnir iddo gael ei gwblhau erbyn diwedd Chwefror. Bydd yr ysgrifennydd yn cwblhau rhannu o'r ffurflen, a'r trysorydd y gweddill. Wedi ei gwblhau, dylid anfon y ffurflen at Ystadegydd yr Henaduriaeth. Cewch hyd l enw a chyfeiriad yr ystadegydd ym Mlwyddlyfr yr Henaduriaeth. Bydd ystadegydd yr henaduriaeth wedyn yn anfon y ffurflenni ymlaen l'r Sasiwn ac yna l Gaerdydd.

7 Adroddiad y Capel. Mae darparu adroddiad blynyddol yn ofyniad cyfreithiol. Byddwch yn cyd-weithio ag ysgrifennydd y capel l ddarparu'r wybodaeth angenrheidiol. Caiff copi o'r Adroddiad Blynyddol ei anfon i Drysorydd yr Henaduriaeth, fel arfer erbyn tua mis Mehefin.

Cwestiynau Trafod

1 Beth yw'r anhawstersau mwyaf l drysorydd yn eich barn chi?

2 Pa bethau ydych chi wedi eu dysgu ers l chi fod yn drysorydd, fyddai'n help l drysorydd newydd?

3 Mae'r blaenoriaid yn awyddus i wneud gwaith gwella ar yr adeiladau. Rydych chi'n gwybod nad oes llawer o arian yn y coffrau.

Beth allwch gynnig?

4 Mae hi'n fis Hydref. Mae sawl aelod heb gyfrannu dim tuag at y capel hyd yma eleni.

Pa gamau gallech gymryd?

5 Mae trysorydd y Cylch Lleyddol yn wael iawn. Dydych chi ddim wedi gweld y datganiad banc am eu cyfrif.

Pa gamau fyddech yn gymryd?

6 Fel canlyniad l'r sesiwn yma, beth ydych chi am ei ystyried, neu am wneud yn wahanol?

COFIWCH

DYDYCH CHI DDIM AR BEN EICH HUN!!

Gofynnwch am help yn gynt yn hytrach nag yn hwyrach. Mae'r blaenoriaid yna l'ch helpu, neu bydd yr henaduriaeth yn barod iawn l'ch helpu os oes angen.

19.7.17